Cyfarfod Addysg i Oedolion Rhanddeiliaid Sector Taith - Crynodeb
Dydd Gwener, 29 Medi 2023
9.00– 10.00am
Cyfarfod a gynhaliwyd trwy Zoom

Rhestr Bresenoldeb	
Yn Bresennol:	Claire Richardson, Taith (Cadeirydd) Chloe Rees, TUC Cymru Catherine Evans, Jisc Cath Hicks, Dysgu Oedolion Cymru Lowri Bunford-Jones, Canolfan Dysgu Genedlaethol Sarah Horner, Hijinx Stella Warren, Celtic English Academy
Cyfieithydd	Iola Llwyd
Ymddiheuriadau:	
Aelodau o Gorff Gweithredu Rhaglen Taith (TPE):	Ellie Bevan Walter Brooks Rebecca Payne Siôn James Bethan Willams
Cymorth Ysgrifenyddol:	Michele Convery

Cofnodion	
Eitem ar yr agenda	**Eitem**
1	**Croeso a chyflwyniadau**
1.1	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod ac esboniwyd iddynt, er nad grŵp gwneud penderfyniadau oedd hwn, y byddai'r trafodaethau a'r adborth o'r cyfarfodydd hyn yn llywio unrhyw gynigion a gyflwynir i ILEP Ltd. Bwrdd y Cyfarwyddwyr.
1.2	Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gefnogi cymryd cofnodion a gofynnwyd iddynt ddefnyddio'r llaw rithwir wrth eisiau cyfrannu at drafodaethau.
1.3	Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am yr opsiwn o gyfieithu ar y pryd yn y Gymraeg a rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt ar sut mae mynd ati i'w ddefnyddio.
2	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r camau gweithredu**
2.1	Amherthnasol
3	**Pynciau i'w trafod**
3.1	Cyflwynwyd trosolwg o bapur 'Diweddariadau Taith a Pynciau i'w Trafod', a gafodd ei ddosbarthu cyn y cyfarfod. Rhoddwyd yr adborth canlynol mewn perthynas â'r papur:
3.1a	**Cyfranogwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol:** Yn ogystal, hysbyswyd aelodau bod trafodaethau mewnol cychwynnol, er nad ydynt yn sefydlog, yn awgrymu targed lleiaf o 20%.
3.1a(i)	Sylwyd bod ymdrin â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn gymhleth ac yn haenog ond ni ddylid tanamcangyfrif y pwysigrwydd.
3.1a(ii)	Ychwanegwyd, mae bod â tharged ar waith yn golygu y bydd yn rhaid i brosiectau ystyried hyn o'r dechrau a bod yn ymwybodol o'r targed. Mae cael cefnogaeth ac arweiniad gan Taith a chan Bencampwyr Taith yn hollbwysig.
3.1a(iii)	Mae targedau'n ddatblygiad cadarnhaol ond mae heriau. Mae'n debyg bod yr 20% tua'r ganran gywir gan y gallai fod yn her i rai sefydliadau.
3.1a(iv)	Gofynnwyd ar beth mae'r gyfradd ar hyn o bryd a beth yw'r nifer sy'n manteisio arni ar hyn o bryd o ran amrywiaeth pobl.
3.1a(v)	**Taith:** nid oes cyfradd benodedig ar hyn o bryd ac mae'r ganran sy'n manteisio arni tua 13%, ond oherwydd nad oes gofyniad i adrodd ar y data hwn a'r sensitifrwydd o ran ei gasglu, gallai canradd y gyfradd fod yn uwch.

3.1a(vi) 3.1a(vii)	Gofynnodd **Taith** am gyngor ac arweiniad ar unrhyw rwydweithiau y gellid eu cyrraedd.. Awgrymwyd bod cysylltu â sefydliadau ymbarél i gael nodweddion gwarchodedig yn fan cychwyn da. Hefyd, defnyddio astudiaethau achos sy'n cynnwys grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ddangos i eraill yr hyn sy'n gyraeddadwy.
3.1a(viii)	Gofynnwyd a allai Taith roi arweiniad ynghylch dal data.
3.1a(ix)	Byddai dogfennau hawdd eu darllen/fideos yn ddefnyddiol.
3.1a(x)	Roedd anogaeth i feddwl am gynnal rhai sgyrsiau uniongyrchol gyda chynulleidfaoedd targed i ddarganfod sut y gallent ymateb, beth fyddai o ddiddordeb iddynt ac yn eu harwain i ymgysylltu gan ei bod bob amser yn beth da herio rhagdybiaethau.
3.1b 3.1b(i)	**Newidiadau i gyfraddau grant** Sylwyd bod y cynnig hwn yn swnio'n deg ac yn synhwyrol.
3.1c 3.1c(i)	**Cynaliadwyedd** Sylwyd bod hynny'n ddatblygiad cadarnhaol ac yn annog buddiolwyr i edrych ar opsiynau teithio gwyrdd, ond maent yn gostus ac os gellir rhoi sylw i hyn yna byddai hynny'n ddefnyddiol.
3.1c(ii)	Ychwanegwyd y bydd newid yn helpu gyda rheolwyr prosiect i feddwl amdano o ddechrau'r prosiect.
3.1c(iii)	Sylwyd ymhellach fod cael mwy o opsiynau yn beth da, yn enwedig os gallant gynorthwyo grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
3.1d 3.1d(i)	**Gwella eglurder a lleihau baich gweinyddol** - AU (Addysg) ac AU (Ymchwil) - Addysg Bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol – iaith Sylwyd y gallai Dysgwyr sy'n seiliedig ar waith deimlo eu bod wedi cael eu heithrio gyda'r newid mewn enw.
4	**Diweddariadau**
4.1 4.2	Hysbyswyd yr aelodau am gyfarfodydd bob sector a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Bydd y rhain yn gyfle i ddysgu ar y cyd ac i fynd i'r afael â materion traws-sector ar y cyd. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto, ond bydd e-bost yn cael ei anfon ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.

4.3	Atgoffwyd yr aelodau fod galwad nesaf Llwybr 2 am geisiadau yn agor ar 5 Hydref. I gefnogi hyn, bydd cyfres o weminarau, ac mae manylion cofrestru ar gyfer y rhain yn yr adran 'Digwyddiadau' ar wefan Taith. At hyn, gellir trefnu cyfarfodydd llai i drafod syniadau posibl am brosiectau neu i ofyn cwestiynau am y llwybr. Cynghorwyd yr Aelodau fod y recriwtio ar gyfer chwe aelod newydd o'r Bwrdd Cynghori yn dechrau ym mis Hydref a gofynnwyd iddynt rannu hyn drwy eu rhwydweithiau. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd gwybod i'r aelodau na all y darpar ymgeiswyr fod yn derbyn cyllid gan Taith.
5	**Eitemau a godwyd gan aelodau grŵp rhanddeiliaid y sector**
5.1	Gofynnwyd i'r Aelodau adrodd (drwy e-bost) am unrhyw ddigwyddiadau y dylai Taith fod yn eu proffilio.
6	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**
6.1	Cyfarfod nesaf 4 Rhagfyr 2023